



Briff Ymchwil  
**Hysbysiad hwylus ar gyllid  
ysgolion**

---

Awdur: **Michael Dauncey**  
Dyddiad: **Gorffennaf 2016**



Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awdur: **Michael Dauncey**

Dyddiad: **Gorffennaf 2016**

Rhif Papur: **16-045**

Clawr blaen: **Llun Google Images. Dan drwydded Creative Commons**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Tŷ Hywel**  
**Bae Caerdydd**  
**Caerdydd**  
**CF99 1NA**

 : 0300 200 6293

 : [Michael.Dauncey@Cynulliad.Cymru](mailto:Michael.Dauncey@Cynulliad.Cymru)

 : [Cynulliad.Cymru/Pigion](http://Cynulliad.Cymru/Pigion)

 : [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

 : [Cynulliad.Cymru/Ymchwil](http://Cynulliad.Cymru/Ymchwil)

## © Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

# Briff Ymchwil

## Hysbysiad hwylus ar gyllid ysgolion

Mae'r papur briffio hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil yn egluro'r broses o ddyrannu cyllid i ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i ysgolion drwy'r setliad llywodraeth leol. Mae awdurdodau lleol yn penderfynu faint i'w wario ar addysg, yn dibynnu ar eu blaenoriaethau a'u hamgylchiadau lleol, ac yna'n dyrannu cyllidebau i ysgolion unigol. Mae'r papur hwn yn cynnwys ystadegau ar lefelau cyllid cyfredol ysgolion a lefelau cyllid diweddar, yn ogystal â sylwadau ar y cyd-destun o ran polisi.



# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad .....</b>	<b>1</b>
<b>2. Y broses ar gyfer pennu cyllidebau ysgolion.....</b>	<b>2</b>
Grant Cynnal Refeniw y Llywodraeth Leol .....	2
Cyllidebau addysg awdurdodau lleol .....	3
Y Gyllideb Ysgolion Unigol .....	3
<b>3. Lefelau cyllido ysgolion yn 2016-17 .....</b>	<b>5</b>
Gwariant gros a gyllidebwyd.....	5
Y gyfradd ddirprwyo .....	6
Data ar lefel awdurdod lleol .....	8
<b>4. Cyd-destun polisi.....</b>	<b>9</b>
Diogelu cyllidebau ysgolion yn y Pedwerydd Cynulliad.....	9
Y rhagolygon ar gyfer cyllid ysgolion yn y Pumed Cynulliad .....	9

# 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan bod cyllidebau ysgolion yn flaenoriaeth ers i Carwyn Jones ddod yn Brif Weinidog ddiwedd 2009. Yn y Pedwerydd Cynulliad, roedd gan Lywodraeth Cymru bolisi o ddiogelu cyllidebau ysgol ar lefel o un pwynt canran y uwch na'r newid yng ngrant bloc Cymru. Dywedodd Llywodraeth newydd Cymru y byddai'n buddsoddi £100 miliwn ychwanegol er mwyn gwella ysgolion yn y Pumed Cynulliad.

Yng Nghymru, awdurdodau lleol sy'n ariannu ysgolion a gynhelir (h.y. ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth yn hytrach nag ysgolion annibynnol/preifat) ac nid y Llywodraeth yn uniongyrchol. Felly, daw'r cyllid cyffredinol ar gyfer ysgolion o gyllideb llywodraeth leol Llywodraeth Cymru, yn hytrach nag o'r gyllideb addysg.

Yn 2016-17, mae awdurdodau lleol wedi neilltuo £2.519 biliwn o'u cyllidebau i'w wario ar ysgolion. Mae'r papur hwn yn egluro'r broses ar gyfer dyrannu arian i ysgolion unigol a gwariant ar wasanaethau i ysgolion a ddarperir yn ganolog gan awdurdodau lleol.

## 2. Y broses ar gyfer pennu cyllidebau ysgolion

Daw'r mwyafrif helaeth o gyllid ar gyfer darpariaeth cyn 16<sup>1</sup> mewn ysgolion a gynhelir o gyllideb llywodraeth leol Llywodraeth Cymru, yn benodol drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Mae sawl cam i'r broses o bennu cyllidebau ysgolion.

- Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r swm priodol o **Grant Cynnal Refeniw** i bob awdurdod lleol. Mae pob awdurdod lleol yn defnyddio hyn i ariannu amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir ganddo, gan gynnwys addysg.
- Yn ail, mae awdurdodau lleol yn pennu **cyllideb addysg ar dair haen**, ac un ohonynt yw'r cyllid a roddir yn uniongyrchol (a ddirprwyir) i ysgolion.
- Yn drydydd, mae'r awdurdod lleol yn pennu'r **gyllideb unigol ar gyfer pob ysgol** a gynhelir ganddo.

Pennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol sy'n gyfrifol am drefnu sut y mae'r ysgol yn gwario'r arian a ddirprwywyd iddi.

Yn ogystal â'r gyllideb a delir i bob ysgol gan yr awdurdod lleol, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio nifer o ffrydiau arian o'i chyllideb addysg i gefnogi'r gwaith o gyflwyno polisiau a blaenoriaethau penodol (e.e. y Grant Gwella Addysg) neu dargedu cyllid ychwanegol, er enghraifft **y Grant Amddifadedd Disgyblion** a rhaglen **Her Ysgolion Cymru**.

### Grant Cynnal Refeniw y Llywodraeth Leol

Caiff y Grant Cynnal Refeniw ei ddyrannu i awdurdodau lleol i ddarparu'r gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt, gan ddefnyddio fformiwla y cytunwyd arni gan bawb. Y prif ffynonellau cyllid eraill ar gyfer cyllidebau addysg awdurdodau lleol yw incwm y dreth gyngor ac incwm ardrethi annomestig.

Mae swm y Grant Cynnal Refeniw a ddyrennir i bob awdurdod lleol yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn yn y **Setliad Llywodraeth Leol**. Nid yw'r arian hwn yn cael ei **neilltuo**, sy'n golygu na nodir faint o'r Grant Cynnal Refeniw y dylai awdurdodau lleol ei ddefnyddio i ddarparu cyllidebau unigol i ysgolion. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cynnwys **Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion** ar gyfer pob maes gwasanaeth fel rhan o'r setliad, sef cyfrifiad tybiannol o'r hyn y mae angen i bob Cyngor ei wario er mwyn darparu lefel safonol o wasanaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud **nad targedau gwariant mo Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion**, ac mai mater i bob awdurdod lleol yw pennu ei flaenoriaethau gwariant ei hun o'i ddyraniad cyllid cyffredinol a'r hyn y gall ei godi o'r dreth gyngor<sup>2</sup>.

Yn 2016-17, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfanswm o £4.102 biliwn (£4,101,551,000) o arian heb ei neilltuo i awdurdodau lleol drwy'r Grant Cynnal Refeniw. Mae hyn **1.3 y cant** (£54 miliwn) yn llai nag yn 2015-16, ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau i mewn i'r setliad, sy'n golygu bod llai o arian gan awdurdodau lleol i ddarparu eu gwasanaethau. Yn y cyd-destun hwnnw, gofynnodd Llywodraeth Cymru iddynt drosglwyddo'r mesur diogelu 1 y cant ar gyfer cyllidebau ysgolion.

Er nad yw'r mwyafrif helaeth o gyllid adnoddau (refeniw) llywodraeth leol yn cael ei neilltuo, mae Llywodraeth Cymru yn dal i dalu rhai grantiau penodol<sup>3</sup> i awdurdodau lleol at ddiben penodol. Mae

---

<sup>1</sup> Darperir cyllid ar gyfer darpariaeth ôl 16 mewn ysgolion drwy grant penodol gan Lywodraeth Cymru.

<sup>2</sup>Gwefan Llywodraeth Cymru, **Asesiadau o Wariant Safonol** [fel ym mis Gorffennaf 2016]

<sup>3</sup>Rhestrir y grantiau hyn yn Nhabl 9 o **dablau Excel** y Setliad Llywodraeth Leol, sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

nifer y grantiau hyn wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf wedi i Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) gytuno i symud yn gyffredinol tuag at neilltuo llai o gyllid.

## Cyllidebau addysg awdurdodau lleol

Ar ôl cael eu dyraniad o'r setliad gan Lywodraeth Cymru, mae awdurdodau lleol yn pennu cyllidebau ar gyfer y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt, gan gynnwys addysg, yn unol ag **anghenion a blaenoriaethau lleol**.

O dan ddarpariaethau **Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998**, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r fframwaith cyfreithiol y mae awdurdodau lleol yn dyrannu eu gwariant ar addysg i ysgolion yn unol ag ef. Nodir y fframwaith yn **Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010**, fel y'u diwygiwyd. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddyrannu gwariant i'r **tair cyllideb** a ganlyn, y mae awdurdodau lleol yn cadw ac yn gweinyddu'r ddwy gyntaf ohonynt yn ganolog.

- Mae **Cyllideb Addysg yr Awdurdod Lleol**<sup>4</sup> ar gyfer swyddogaethau canolog yr awdurdod lleol sy'n ymwneud ag addysg. Mae hyn yn cynnwys gwariant ar ysgolion, er enghraifft rhywfaint o ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)<sup>5</sup>, gwella ysgolion, trafndiaeth ysgolion a rheoli strategol. Mae'r elfennau hyn wedi'u cynnwys fel rhan o'r gwariant ysgolion y cyfeirir ato yn nhablau 1-3 yn adran 3 o'r papur hwn. Fodd bynnag, mae cyllideb yr awdurdod lleol hefyd yn cynnwys mathau eraill o wariant ar addysg, fel addysg bellach a hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc ac oedolion, trafndiaeth colegau, gwasanaethau ieuencid a rheoli strategol nad yw ar gyfer ysgolion.
- Mae'r **Gyllideb Ysgolion** yn cwmpasu gwariant sydd wedi'i dargedu'n uniongyrchol i gefnogi ysgolion. Mae'n cynnwys gwariant ar wasanaethau y gall yr awdurdod lleol gadw cyllid ar eu cyfer yn ganolog, fel gwasanaethau ADY, prydau ysgol a llaeth.
- Mae swm y gwariant a gedwir yn ganolog yn cael ei dynnu o'r Gyllideb Ysgolion a'r gweddill yw'r **Gyllideb Ysgolion Unigol**, h.y. cyllid a ddirprwyir i ysgolion. Y gyfradd ddirprwyo yw'r enw am gyfran y gwariant gros wedi'i gyllidebu ar ysgolion sy'n dod o'r Gyllideb Ysgolion Unigol. (Nid yw'r Gyllideb Ysgolion Unigol yn cynnwys unrhyw gyllid grant wedi'i neilltuo o gyllideb addysg Llywodraeth Cymru nac unrhyw le arall, er bod grantiau o'r fath yn rhan o gyllideb ddirprwyedig gyffredinol pob ysgol unigol.)

## Y Gyllideb Ysgolion Unigol

Mae *Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010* yn nodi bod yn rhaid i'r Gyllideb Ysgolion Unigol gael ei dyrannu ymhlith ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf cyfranddaliadau cyllidebol, gan ddefnyddio fformiwla ariannu a bennir yn lleol. Mae'r rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i **70 y cant o'r arian gael ei ddsbarthu ar sail nifer y disgyblion**. Yn eu fformiwla, caiff awdurdodau lleol bwysoli niferoedd disgyblion yn ôl unrhyw un o'r ffactorau canlynol neu bob un ohonynt:

- oedran, gan gynnwys pwysoliad yn ôl cyfnod allweddol neu grŵp blwyddyn;
- a yw disgybl yn cael addysg feithrin gan ysgol;

---

<sup>4</sup>Y term a ddefnyddir mewn deddfwriaeth yw 'cyllideb addysg nad yw ar gyfer ysgolion', gan ei fod yn cyfeirio at gyllid nad yw'n cael ei ddirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion. Fodd bynnag, cyfeirir ato'n gyffredinol fel cyllideb yr awdurdod lleol ac roedd yn arfer cael ei alw'n gyllideb yr awdurdod addysg lleol. Mae'r term 'awdurdod lleol' wedi cael ei **ddefnyddio yn lle** 'awdurdod addysg lleol' ers 5 Mai 2010.

<sup>5</sup> Defnyddir y term 'Anghenion Dysgu Ychwanegol' i olygu'r un peth ag 'Anghenion Addysg Arebennig', sef y term a ddiffinnir mewn deddfwriaeth. Yn y ddeddfwriaeth y bwriedir ei chyhoeddi yn y dyfodol, bydd ADY yn disodli AAA.

- yn achos disgyblion o dan bump oed, eu hunion oedran wrth gael eu derbyn i'r ysgol;
- yn achos disgyblion o dan bump oed, oriau presenoldeb;
- Anghenion Addysgol Arbennig;
- a yw disgybl mewn ysgol hefyd yn mynychu sefydliad o fewn y sector Addysg Bellach;
- a yw disgybl yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae gan awdurdodau lleol y **disgresiwn i ddsbarthu'r 30 y cant o'r cyllidebau sy'n weddill** ar sail amrywiaeth o ffactorau yn y rheoliadau, e.e. maint a chyflwr adeiladau a thir, ardrethi, costau cyfleustodau, costau glanhau a chyflogau ac ati.

Mae ***Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003*** yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gael fforwm ysgolion lleol (a elwir yn **fforwm cyllideb ysgolion** hefyd). Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ymgynghori â'u fforwm ysgolion yn flynyddol ar faterion sy'n ymwneud â'u Cyllideb Ysgolion a newidiadau i'w Cynllun Ariannu Ysgolion (gweler isod). Gallant hefyd ymgynghori â'u fforymau ar faterion eraill sy'n ymwneud â chyllido ysgolion, er enghraifft goblygiadau ariannol y trefniadau ar gyfer prydau ysgol am ddim, trefniadau ar gyfer yswiriant a threfniadau ar gyfer defnyddio unedau cyfeirio disgyblion ac addysg plant heblaw yn yr ysgol.

Mae'n rhaid i bob awdurdod lleol sefydlu **Cynllun Ariannu Ysgolion** sy'n nodi'r berthynas ariannol rhwng yr awdurdod a'r ysgolion yn ei ardal. Mae'n cynnwys gofynion yn ymwneud â rheolaeth ariannol a materion cysylltiedig a gall bennu pwy sy'n gyfrifol am rai materion. Dylai'r cynllun nodi cyfrifoldebau'r pennaeth a'r corff llywodraethu o ran cynllun blynyddol y gyllideb. Rhaid i'r corff llywodraethu gymeradwyo cynllun cyllideb ffurfiol cyntaf pob blwyddyn ariannol. Yn 2002, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ***ganllawiau atodol ar gynlluniau ariannu ysgolion***.



### 3. Lefelau cyllido ysgolion yn 2016-17

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ystadegau blynyddol ar faint o arian a ddyrennir gan awdurdodau lleol i'w wario ar ysgolion. Cyhoeddwyd y rhifyn diweddaraf, **Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion 2016-17**, ar 7 Gorffennaf 2016.

Mae'r ystadegau hyn hefyd yn cynnwys manylion am y 'gyfradd ddirprwyo', sef cyfran y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion y mae awdurdodau lleol yn ei rhoi yn uniongyrchol i ysgolion eu hunain.

#### Gwariant gros a gyllidebwyd

Mae Tabl 1 yn dangos faint y mae awdurdodau lleol wedi'i ddyrannu i'w wario ar ysgolion yn y blynyddoedd diwethaf. Ym mlwyddyn ariannol 2016-17, mae swm gros o **£2.519 biliwn** (£2,518,768,000) wedi'i gyllidebu gan awdurdodau lleol i'w wario ar ysgolion.

- Mae'r lefel yn 2016-17 **0.9 y cant yn uwch na'r lefel yn 2015-16**.
- Fodd bynnag, mae **0.36 y cant yn is na'r ffigur uchaf yn 2014-15**.
- Mae'r swm a ddyrannwyd gan awdurdodau lleol yn 2016-17 **1.99 y cant yn uwch na'r swm yn 2011-12**.

**Tabl 1: Gwariant gros Cymru-gyfan a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion**

	<i>£ Biliwn</i>
	<u>Gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion</u>
2016-17	2.519
2015-16	2.496
2014-15	2.528
2013-14	2.520
2012-13	2.495
2011-12	2.470
2010-11	2.458

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol: **Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion** (sawll rhifyn blynyddol)

Nodiadau:

- Mae hyn yn cynnwys pob elfen o wariant awdurdodau lleol sy'n ymwneud â darpariaeth ysgolion, h.y. y gyllideb ysgolion (gan gynnwys y Gyllideb Ysgolion Unigol) ynghyd ag elfennau o gyllideb addysg yr awdurdod lleol sy'n ymwneud ag ysgolion: darpariaeth ADY; gwella ysgolion; mynediad at addysg; trafndiaeth ysgol; rheoli ysgolion yn strategol; a mathau eraill o wariant. Mae'r ffigurau'n cynnwys y gost o addysgu disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r sir.
- Mae'r ffigurau ar sail 'gros', h.y. maent yn cynnwys cyllid o bob ffynhonnell.

**Tabl 2: Gwariant gros Cymru-gyfan a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion fesul disgybl**

	£
	<u>Gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion fesul disgybl</u>
2016-17	5,570
2015-16	5,526
2014-15	5,607
2013-14	5,594
2012-13	5,520
2011-12	5,451
2010-11	5,418

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol: **Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion** (sawl rhifyn blynyddol)

Nodiadau:

- iii) Mae hyn yn cynnwys pob elfen o wariant awdurdodau lleol sy'n ymwneud â darpariaeth ysgolion, h.y. y gyllideb ysgolion (gan gynnwys y Gyllideb Ysgolion Unigol) ynghyd ag elfennau o gyllideb addysg yr awdurdod lleol sy'n ymwneud ag ysgolion: darpariaeth ADY; gwella ysgolion; mynediad at addysg; trafndiaeth ysgol; rheoli ysgolion yn strategol; a mathau eraill o wariant. Mae'r ffigurau'n cynnwys y gost o addysgu disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r sir.
- iv) Mae'r ffigurau ar sail 'gros', h.y. maent yn cynnwys cyllid o bob ffynhonnell.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar **StatsCymru**, lle rhoddir y dadansoddiad canlynol ar gyfer 2016-17:

- **Cyllideb Addysg yr Awdurdod Lleol** (elfennau sy'n ymwneud ag ysgolion): **£244 miliwn** (£243,512,000) [mae £58 miliwn hefyd wedi'i gyllidebu ar gyfer gwariant nad yw ar gyfer ysgolion fel addysg bellach a hyfforddiant a gwasanaethau ieuencid.]
- **Y Gyllideb Ysgolion** (llai y Gyllideb Ysgolion Unigol): **£152 miliwn** (£151,937,000)
- **Y Gyllideb Ysgolion Unigol: £2.123 biliwn** (£2,123,319,000)

## Y gyfradd ddirprwyo

Mae'r gyfradd ddirprwyo yn cynrychioli cyfran y gwariant gros a gyllidebwyd sy'n cynnwys y Gyllideb Ysgolion Unigol, h.y. arian a roddir i ysgolion eu hunain.

Yn 2016-17, ar gyfartaledd ledled Cymru, roedd **84.3 y cant** o'r gwariant gros a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion wedi'i ddirprwyo i'r ysgolion eu hunain. Y ffigurau cyfatebol oedd 83.8 y cant yn 2015-16 a 75.0 y cant yn 2010-11.

Yn 2012-13, gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad i sicrhau bod awdurdodau lleol yn dirprwyo 85 y cant o'r cyfanswm cyllid ysgolion i ysgolion erbyn 2014-15. Mae Tabl 3 yn dangos cynnydd yn y cyfraddau dirprwyo dros y blynyddoedd diwethaf.

**Tabl 3: Cyfran y gwariant gros Cymru-gyfan a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion a ddirprwyd i ysgolion (y gyfradd ddirprwyo)**

	<u>Y gyfradd ddirprwyo</u>
2016-17	84.3%
2015-16	83.8%
2014-15	82.9%
2013-14	82.3%
2012-13	81.0%
2011-12	76.2%
2010-11	75.0%

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol: **Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion** (sawl rhifyn blynyddol)

Nodiadau:

- i) Cyfrifir y gyfradd ddirprwyo drwy rannu'r symiau a gaiff eu dirprwyo i ysgolion gan swm y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion.
- ii) Bydd cyfraddau dirprwyo yn amrywio yn dibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir yn ganolog gan awdurdodau lleol. Mae'r bwletin ystadegol yn rhoi'r gyfradd ddirprwyo ar gyfer pob awdurdod lleol.

Er bod y gyfradd wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf fel cyfran o wariant ar ysgolion, caiff swm sylweddol o arian ei gadw a'i wario'n ganolog gan awdurdodau lleol o hyd; **£395 miliwn yn 2016-17**. Mae awdurdodau lleol yn penderfynu y dylent ddarparu rhai gwasanaethau'n ganolog eu hunain er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, arbedion maint neu am eu bod yn wasanaethau arbenigol neu'n wasanaethau canolog yn eu hanfod.

Ar **27 Ionawr 2016** (PDF 460KB), gofynnodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Pedwerydd Cynulliad i'r Gweinidog Addysg blaenorol, Huw Lewis, am y **cydbwysedd rhwng y cyllid ysgolion a gaiff ei ddirprwyo a'r adnoddau a gaiff eu rheoli gan awdurdodau lleol yn ganolog**.

---

*[322] Simon Thomas: (...) have you seen the need to retain some element of central and regional funding in order to support your priorities?*

*[323] Huw Lewis: Yes, most definitely, and most particularly in Wales, actually. I think we've got a number of large rural authorities in particular that, if left to direct funding for schools, those schools would find themselves in desperate straits almost immediately—within the first financial year. For schools in Gwynedd, Powys, Ceredigion and Pembrokeshire, school transport alone would cripple the budget. So, we do need that community of interest around schools, and we can argue then politically about how far it should extend.*

---

## Data ar lefel awdurdod lleol

Caiff y data a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn y datganiad ystadegol blynyddol ac ar StatsCymru eu dadansoddi fesul awdurdod lleol. Cyflwynir y data hynny yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4: Gwariant gros a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion a'r gyfradd ddirprwyo**

	2014-15			2015-16			2016-17		
	Gros (£ Miliwn)	Fesul disgybl (£)	ddirprwyo (%)	Gros (£ Miliwn)	Fesul disgybl (£)	ddirprwyo (%)	Gros (£ Miliwn)	Fesul disgybl (£)	ddirprwyo (%)
Ynys Môn	57.325	6,184	81.8	56.140	6,058	82.8	56.475	6,077	83.1
Gwynedd	99.079	6,019	82.9	98.106	5,963	83.3	97.898	5,947	83.4
Conwy	92.957	6,010	83.6	91.796	5,942	84.2	92.167	5,960	84.8
Sir Ddinbych	87.611	5,749	85.3	85.799	5,628	86.3	86.799	5,713	86.0
Sir y Fflint	124.369	5,424	81.3	121.110	5,300	83.4	119.971	5,252	86.0
Wrecsam	101.281	5,440	84.5	100.967	5,381	84.9	102.769	5,460	84.8
Powys	108.762	5,880	76.8	105.995	5,887	78.9	104.989	5,933	78.0
Ceredigion	59.589	6,302	78.7	59.513	6,322	78.2	59.580	6,349	78.0
Sir Benfro	101.065	5,712	84.7	99.591	5,710	85.3	99.012	5,760	85.8
Sir Gaerfyrddin	152.757	5,693	83.6	151.534	5,630	83.5	151.837	5,637	83.4
Abertawe	182.058	5,414	83.1	175.930	5,176	83.6	176.409	5,126	84.8
Castell-nedd Port Talbot	107.674	5,536	83.2	107.665	5,503	83.1	111.906	5,674	81.0
Pen-y-bont ar Ogwr	121.794	5,395	82.2	119.742	5,254	84.2	120.281	5,240	85.5
Bro Morgannwg	109.520	5,145	85.9	109.059	5,083	85.8	109.105	5,051	87.2
Caerdydd	273.404	5,468	85.6	277.908	5,475	86.6	288.422	5,604	88.2
Rhondda Cynon Taf	215.143	5,523	82.8	213.577	5,505	82.8	215.010	5,585	82.8
Merthyr Tudful	48.634	5,722	85.1	48.019	5,795	84.9	48.879	5,723	86.1
Caerffili	153.474	5,563	80.4	152.342	5,507	81.0	152.186	5,576	82.2
Blaenau Gwent	55.403	6,216	85.4	55.124	6,241	85.4	55.283	6,327	85.3
Torfaen	83.504	5,719	80.2	78.802	5,466	84.0	79.492	5,537	83.4
Sir Fynwy	66.907	5,915	80.4	64.251	5,675	82.3	63.410	5,602	82.0
Casnewydd	125.450	5,331	82.2	122.604	5,131	84.5	126.886	5,282	85.4
<b>Cymru</b>	<b>2,527.761</b>	<b>5,607</b>	<b>82.9</b>	<b>2,495.573</b>	<b>5,526</b>	<b>83.8</b>	<b>2,518.768</b>	<b>5,570</b>	<b>84.3</b>

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Bwletin Ystadegol: **Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion** (sawl rhifyn blynyddol)

Nodiadau:

- i) Mae'r ffigur gros yn cynnwys pob elfen o wariant awdurdodau lleol sy'n ymwneud â darpariaeth ysgolion, h.y. y gyllideb ysgolion (gan gynnwys y Gyllideb Ysgolion Unigol) ynghyd ag elfennau o gyllideb addysg yr awdurdod lleol sy'n ymwneud ag ysgolion: darpariaeth ADY; gwella ysgolion; mynediad at addysg; trafndiaeth ysgol; rheoli ysgolion yn strategol; a mathau eraill o wariant. Mae'r ffigurau'n cynnwys y gost o addysgu disgyblion sydd â datganiadau o anghenion addysgol arbennig sy'n cael eu haddysgu y tu allan i'r sir. Maent hefyd ar sail 'gros', h.y. maent yn cynnwys cyllid o bob ffynhonnell.
- ii) Nid oes modd cymharu'r newidiadau rhwng cyllidebau gros 2014-15 a 2015-16 yn llawn oherwydd i'r gwariant ar gynllun Dechrau'n Deg gael ei symud o'r gyllideb Addysg i Wasanaethau Cymdeithasol yn 2015-16.
- iii) Cyfrifir y gyfradd ddirprwyo drwy rannu'r symiau a gaiff eu dirprwyo i ysgolion gan swm y gwariant gros a gyllidebwyd ar gyfer ysgolion. Mae cyfraddau dirprwyo yn amrywio yn dibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir yn ganolog gan awdurdodau lleol.

## 4. Cyd-destun polisi

### Diogelu cyllidebau ysgolion yn y Pedwerydd Cynulliad

Yn y pedwerydd Cynulliad, roedd gan Lywodraeth Cymru raglen ar gyfer ymrwymiad y Llywodraeth i ddiogelu cyllidebau ysgolion. Nod y rhaglen oedd cynyddu gwariant ar ysgolion Cymru o leiaf **un pwynt canran yn uwch na'r newid i gyfanswm yr arian a ddaw o San Steffan** ar gyfer swyddogaethau datganoledig (Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru ac ati), sef 'bloc Cymru'.

Yn dilyn gwaith craffu ar y mater a galwadau am fwy o dryloywder, eglurodd Llywodraeth Cymru ei dull gweithredu ar gyfer y polisi '1 y cant o ran diogelu'r gyllideb ysgolion' yn **naratif Cyllideb Ddrafft 2015-16 (Atodiad E)** (PDF 1.32MB). Yna, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf yn y **papur a gyflwynwyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, Huw Lewis**, (PDF 1.20MB), i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, ynghylch craffu ar gyllideb ddrafft 2016-2017 ym mis Ionawr 2016 (paragraffau 95-101).

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru adroddiadau am y newidiadau i floc Cymru a'r gyllideb ysgolion rhwng 2010-11 a 2015-16, ynghyd â'r **twf blynyddol cyfartalog** yn ystod y cyfnod. Dangosodd hyn i gyllideb Llywodraeth Cymru dyfu **0.02 y cant** ar gyfartaledd bob blwyddyn rhwng 2010-11 a 2015-16. Nododd hefyd fod y cyllid i gyllidebau sy'n cefnogi dysgwyr mewn lleoliadau ysgol yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol wedi cynyddu **tua 1.02 y cant** ar gyfartaledd bob blwyddyn.<sup>6</sup>

Yn ôl Llywodraeth Cymru, **cafodd ysgolion £106 miliwn ychwnageol rhwng 2010-11 a 2015-16** o ganlyniad i hyn. Cafodd £72 miliwn o'r arian hwn ei sianelu drwy'r setliad llywodraeth leol a daeth £34 miliwn ohono o linellau'r gyllideb addysg.

Yn y dystiolaeth a roddwyd ganddo i'r Pwyllgor ym mis Ionawr 2016, dywedodd y Gweinidog ar y pryd fod cyllid i ysgolion yn cynyddu 1.85 y cant yn 2016-17, o gymharu â 2015-16. Mae hynny un pwynt canran yn uwch na'r newid ym mloc Cymru, sef 0.85 y cant yn 2016-17. Dyweodd y Gweinidog ar y pryd fod **ysgolion wedi cael £40 miliwn ychwanegol yn 2016-17** o ganlyniad i hyn. Talwyd £35 miliwn o'r arian hwn drwy'r setliad llywodraeth leol a daeth £5 miliwn ohono o linellau'r gyllideb addysg.

### Y rhagolygon ar gyfer cyllid ysgolion yn y Pumed Cynulliad

Ym maniffesto Llafur Cymru ar gyfer etholiad y Cynulliad yn 2016, **Uchelgeisiol ac yn Dysgu** (PDF 1.84MB), gwnaed addewid i roi **£100 miliwn ychwanegol dros dymor nesaf y Cynulliad** (2016-2021) er mwyn gwella safonau ysgolion. Felly, bydd buddsoddi yn yr agenda gwella ysgolion yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth newydd Cymru.

**Gwella safonau yn gyffredinol** drwy gynnig cymhellion, adnabod a hyrwyddo rhagoriaeth wrth ddysgu yw un o'r naw **blaenoriaeth** sy'n sail i benodiad Kirsty Williams, Aelod o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru, yn Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg. Ar 13 Gorffennaf 2016, dywedodd Kirsty Williams wrth y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**:

---

<sup>6</sup>Cyflwynodd Llywodraeth Cymru adroddiad am ganlyniad ei philisi o ran twf blynyddol cyfartalog yn ei chyllidebau ar gyfer y cyfnod rhwng 2010-11 a 2015-16, yn hytrach na newidiadau o un flwyddyn unigol i'r nesaf.

---

*I recognise that many of the building blocks have been put in train to raise standards of education and training. I truly believe that Welsh education is on the up, but I acknowledge that there is much more to do. **We need to increase the pace of improvement and change.** There are challenging times ahead, but I look forward to that challenge. [fy mhwyslais i]*

---

Yn y **llythyrau rhyngddi hi a Phrif Weinidog Cymru**, a gyhoeddwyd yn dilyn ei phenodiad i'r Cabinet, awgrymodd Kirsty Williams ei bod yn disgwyl arian ychwanegol o'r tu allan i'r gyllideb addysg er mwyn cyflawni'r hyn y cytunwyd arno.

---

*I have emphasised in our discussions that a number of these priorities have **significant budget implications and will need to be reflected** as the Government's forward budget plans take shape. [fy mhwyslais i]*

---

Un o'r blaenoriaethau yw **lleihau maint dosbarthiadau babanod** o 30 i 25, a fyddai'n costio £42 miliwn yn ystod y Pumed Cynulliad yn ôl maniffesto Democratiaid Rhyddfrydol Cymru. Gofynnwyd i'r Prif Weinidog yn y **Cyfarfod Llawn ar 8 Mehefin 2016** a fyddai adnoddau ychwanegol yn cael eu neilltuo i leihau maint dosbarthiadau babanod neu a fyddai'r amcangyfrif o £42 miliwn sydd ei angen yn dod o'r £100 miliwn yr ymrwymodd i'w fuddsoddi mewn gwella safonau ysgolion. Ei ateb oedd:

---

*“Na, gellir cyflawni'r ymrwymiad y tu allan i'r pot o £100 miliwn.”*

---

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei **chyllideb ddrafft ar gyfer 2017-18 yn nhymor yr hydref**. Dylai hyn ei gwneud yn gliriach sut y mae'n bwriadu dyrannu'r gyfran gyntaf o'r £100 miliwn ar gyfer safonau ysgolion; a fydd y drefn yn debyg i'r Pedwerydd Cynulliad, sef cyfuniad o gyllid yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer awdurdodau lleol i ariannu cyllidebau ysgol ynghyd â ffrydiau o'r gyllideb addysg sy'n cefnogi dysgwyr mewn ysgolion.